

MAE **352** O FUSNESAU SYDD WEDI'U COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD O'R SECTOR GARDDWRIAETH



## Y Rhwydwaith Arddangos

**Safle Ffocws:** Cae Derw, Rhuthun

**Teitl y Prosiect:** Arallgyfeirio i arddwriaeth a sefydlu menter casglu eich hun gan ddefnyddio'r dull dim turio

Mae'r farchnad casglu eich hun wedi datblygu dros y degawd diwethaf, o'r fenter draddodiadol a oedd yn canolbwyntio ar gynhyrchu, i dwristiaeth ar fferm sydd â phwyslais ar y profiad. Mae'r cyfryngau cymdeithasol a'r galw am ddyddiau allan yn y wlad i'r teulu yn lleol, sydd wedi'u seilio ar werth, wedi ysgogi'r galw hwn. Gan fod y mentrau hyn felly'n canolbwyntio llai ar gynhyrchu cynyddu, mae'n rhoi cyfle i unedau ffermydd teuluol – hyd yn oed yn y lleoliadau mwyaf ynysig – greu menter amgen sy'n cynhyrchu incwm ac y gellir ei thyfu yn ôl adnoddau'r fferm a'r llafur sydd ar gael gydol y flwyddyn.

Nodau'r prosiect oedd:

- Archwilio dull dim turio i ddatblygu gwelyau ffrwythau, llysiau a blodau
- Tyfu mewn modd mor naturiol ac ecolegol â phosib
- Sicrhau bod cynyddu ar gael i'r cyhoedd eu casglu rhwng Mawrth a Hydref
- Cymharu gwlan defaid â chardfwrdd fel tomwellt i fygu chwyn
- Datblygu menter casglu pwmpenni eich hun



Ffigwr 1. Casglu eich blodau jariau jam eich hun, Awst 2021



Ffigwr 2. Bocsys mafon ar werth, Medi 2021



Ffigwr 3. Lucy Owens, Cae Derw, Hydref 2021

## Casgliadau

- Bu'r dull dim turio'n llwyddiannus, gyda'r blodau, y mafon a'r pwmpenni i gyd yn tyfu'n dda.
- Mae defnyddio gwlan defaid o amgylch y mafon wedi gweithio'n dda i fygu'r chwyn, ac mae hefyd yn helpu i storio dŵr i'w ryddhau'n araf, bydd hefyd yn rhyddhau nitrogen i'r cnwd dros amser.
- Fe wnaeth defnyddio cardfwrdd weithio'n well fel haen isaf gyda thail fferm ar y top ac yna Mypex
- Roedd plannu bylbiau blodau drwy Mypex yn fwy llafurddwys i ddechrau, ond bu llai o waith chwynu'n ddiweddarach
- Gweithiodd y digwyddiadau Casglu Pwmpenni yn dda, wedi'u trefnu drwy lwyfan archebu
- Bu'r gwelyau blodau uwch ar gyfer dyddiau casglu eich hun yn boblogaidd iawn ac yn llwyddiant yn ariannol, felly'r bwriad yw creu rhagor o welyau ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddechrau â bylbiau gwanwyn

**Safle Ffocws:** Gardd Fasnachol Glebelands, Aberteifi

**Teitl y Prosiect:** Gwerthuso buddion hof olwynion Terrateck â Bio-Ddisgiau i reoli chwyn mewn llysiau

Mae Gardd Fasnachol Glebelands yn fenter organig 4ha sy'n cyflenwi llysiau ar gyfer siop fferm ar y safle, ac ar gyfer bwyta a siopau lleol a busnesau eraill. Mae rheoli chwyn yn her ddi-ddiwedd i fusnesau tyfu llysiau bach a chanolig, ac yn aml iawn, bydd hynny'n dibynnu ar dechnegau hofio â llaw sy'n gofyn am gryn dipyn o amser a llafur. Ar hyn o bryd, mae'r busnes yn defnyddio dwy hof olwynion Glaser, sy'n cael eu defnyddio ar y cyd â hofio â llaw, ond roeddent am archwilio sut i leihau hofio â llaw neu ddi-ddiwedd hynny'n llwyr.

Mae 'Hof Gerddi Masnachol Terrateck' yn adnodd trin tir amlbwrpas y gellir ei ddefnyddio i fecaneiddio'r gwaith o baratoi eginblanhigion, hofio, chwynnu a chefnu. Rhoddwyd Bio-Ddisgiau â dau osodiad ar yr hof: un ar gyfer gorchuddio rhes o llysiau a'r llall ar gyfer chwynnu manwl gywir. Wrth briddo, mae'r Bio-Ddisgiau'n gorchuddio'r rhes â phridd, ac felly yn mygu'r chwyn ifanc, sy'n golygu bod hyn yn ddelfrydol ar gyfer eginblanhigion ffa, nionod a chenyn.



Ffigwr 3. Adam York yn defnyddio'r hof Terrateck â Bio-Ddisgiau

## Canlyniadau

Tabl 1: Amser chwynnu a chostau llafur ar gyfer pum gwely triniaeth, gyda phob un yn defnyddio'r hof olwyn Terrateck gyda Bio-Ddisgiau (TBD) a chymharu gyda'r hof Glaser (GH) a hofio â llaw

TBD			
Dyddiad	8 Meh	15 Meh	30 Meh
Amser chwynnu fesul gwely plannu (munudau)	11.8	75.0	11.4
Cyfanswm nifer yr oriau o driniaeth chwynnu (oriau)		8.2	
Cost llafur ar gyfer pum gwely plannu £*	82		
GH			
Date	8 Meh	15 Meh	30 Meh
Amser chwynnu fesul gwely plannu (munudau)	78.0	45.0	63.0
Cyfanswm nifer yr oriau o driniaeth chwynnu (oriau)		15.5	
Labour cost for 5 beds £*	155		
<b>Arbediad cost %</b>	<b>47% yn llai</b>		
*Nodwyd bod costau llafur yn £10 yr awr			

## Casgliadau:

Mae'r Bio-Ddisgiau'n adnodd gwerthfawr ar gyfer amaethu cynyddu syth. Mae pridd digon mân yn hanfodol er mwyn gallu ei ddefnyddio'n effeithlon a sicrhau canlyniadau dibynadwy. Mae'r hof yn arbennig o addas ar gyfer ffermydd ar raddfa fach a chanolig gyda rhesi o gnydau gwerthfawr, heb ddigon o raddfa i gyfiawnhau costau'r peiriannau, amser gosod na hyfforddi ar gyfer fersiynau sy'n cael eu gosod ar dractor. Penbleth gyffredin i ffermydd bach i ganolig yw pŵn a ddylen nhw dynnu'r tractor allan a gosod y peiriant trin perthnasol, neu ddefnyddio offer llai technolegol â llaw i'w ddefnyddio ar unwaith (ond yn llai effeithlon), wrth i'r ardal dan sylw gynyddu.

Mae'r data yn awgrymu bod yr arbedion amser a gofnodwyd yn golygu bod y Bio-Ddisgiau yn declynnau cost effeithiol. Wrth chwynnu deirgwaith ar draws y pum gwely plannu, arbedwyd 7.3 o oriau llafur trwy ddefnyddio'r Bio-Ddisgiau, ar gost o £73, o'i gymharu â defnyddio'r hof llaw Glaser: arbediad o 47% mewn costau.

**Safle Ffocws:** Gardd Gegin Mostyn, Treffynnon

**Teitl y Prosiect:** Datblygu Menter Casglu Eich Pwmpenni Eich Hun

Y prif nod oedd edrych ar fuddion ariannol sefydlu menter casglu pwmpenni ar raddfa fechan ac i werthuso unrhyw fuddion ychwanegol drwy ymgysylltu gyda'r gymuned leol, megis cynnydd mewn gwerthiant y jam a'r siytni a gynhyrchir ar y safle hefyd.

Meysydd ffocws y prosiect:

- Dewis yr amrywiaethau, gan ystyried y gofynion o ran lliw a maint
- Agronomeg y cnwd, o'r had i'w lawn dwf, gan gynnwys rheoli plâu ac afiechydon
- Cymharu tyfu o had dan do gyda phlannu'n uniongyrchol yn yr awyr agored
- Rheoli chwyn
- Cofnodi unrhyw broblemau iechyd, yn enwedig Pydredd o Waelod y Ffrwyth a llwydni powdrog
- Pennu a oedd angen dyfrhau
- Hybu'r Fenter Casglu eich Hun ar y cyfryngau cymdeithasol
- Rheoli'r cyhoedd ar y safle

### Casgliadau

Tyfodd y cnwd yn dda, er gwaethaf gwanwyn oer. Roedd y planhigion a gynhyrchwyd o ansawdd da, ac nid oedd llawer o golledion. Yn y treial drilio uniongyrchol, nid oedd y pwmpenni yn egino cystal ag yn y modiwlau, a adawodd fylchau ar y ddaear. Cynhyrchodd y planhigion a orosodd gnwd – er nad oedd o'r ufm ansawdd o gymharu â'r planhigion a dyfwyd dan do.

Roedd chwyn yn cael ei gadw dan reolaeth gan ddefnyddio'r dechneg o waredu chwyn o'r gwely hadau cyn hau, wedi'i ddilyn gan gyfuniad o chwynoglau ar dractor a hofio â llaw. Ymddangosodd rhywfaint o lwydni powdrog ym mis Awst, ond erbyn hynny, roedd y cnwd wedi sefydlu yn dda, ac ni chymerwyd unrhyw gamau i'w reoli.

Mae tyfu cnydau er gwerth hamdden, yn ogystal â bwyd, yn faes eithaf newydd, ac er eu bod yn gweithredu ar raddfa fechan ond dwys, roedd yr enillion yn dda. Mae wedi creu busnes cynaliadwy i'r fenter ddatblygu ymhellach.

Mae gofyn ichi fod â rhywfaint o ddawn marchnata er mwyn rhedeg y math hwn o fenter, ynghyd â pharodrwydd i groesawu'r cyhoedd a sicrhau profiad da i ymwelwyr. Fodd bynnag, mae yn fodel y gellid ei weithredu ar nifer o ffermydd i wneud elw tymhorol rhesymol y gellir ei ailadrodd, a byddech yn gweithredu mewn marchnad lle mae'r galw yn debygol o dyfu dros y blynyddoedd.



### Costau

5000 o hadau ar gyfer hadau hybrid F1 £250-£300  
Llafur (plannu â llaw a chwynnu) £1250 yr hectar (ha)

### Enillion

7500 o bwmpenni gwerthadwy'r hectar @ £4 yr un ar gyfartaledd = allbwn gros o £30,000

### Casgliadau

Roedd modd rheoli'r cnwd yn rhwydd gyda'r staff a'r adnoddau presennol ar y safle, ac roedd modd ei gynhyrchu heb lawer o broblemau. Diolch i flaengynllunio ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu, gwerthodd y cnwd allan yn gyflym iawn. Dangosodd ymgysylltu â'r cyhoedd alw mawr, ac mae twristiaeth fferm yn gallu bod yn ddewis arall ymarferol i dyfu cynnyrch bwyriadwy prif ffrwd, sydd wedi dod yn anoddach o ystyried y prisiau isel a geir ar gyfer cynnyrch ffres mewn marchnadoedd mwy confensiynol.








### Rhaglen Fentora

**1** NIFER Y GARDDWRIAETHWYR NEWYDD SY'N CYRCHU'R RHAGLEN FENTORA



### Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol sydd wedi'u cynhyrchu gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

-  **ERTHYGLAU TECHNEGOL SYDD WEDI'U CYNHYRCHU GAN Y GANOLFAN CYFNEWID GWYBODAETH**
-  **CLWY TATWS: CADW'R CNWD**
-  **POTENSIAL TYFU PLANHIGION DAN OLAU ARTIFFISIAL**
-  **DATGLOI POTENSIAL CNYDAU AMGEN: INCWM NEWYDD A CHYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL**
-  **TYFU CNYDAU AR GYFER Y DIWYDIANT FFERYLLOL**
-  **DAN DO NEU YN YR AWYR AGORED: EFFEITHIAU HINSODDOL TYFU MEWN AMGYLCHEDD A REOLIR**
-  **DEFNYDDIO FFILMAU POLYMER FFOTODDETHOLUS I DYFU CNYDAU A'U GWARCHOD**

### EIP Cymru

Gwella pwysau cnwd garddwriaethol gydag ychwanegiadau at bridd nad ydynt yn seiliedig ar fawn



Mae ychwanegiadau at y pridd yn ddeunyddiau yn cael eu defnyddio i wella strwythur y pridd, darparu maetholion iddo a hyrwyddo twf planhigion iach. Mae llawer o wahanol fathau o ychwanegiadau yn bodoli; fodd bynnag, yn y prosiect EIP Cymru dwy flynedd hwn, sy'n rhedeg tan fis Medi 2022, mae pedwar ffermwr/tyfwr garddwriaethol profiadol o bob rhan o'r canolbarth a'r de yn treialu tri ychwanegiad organig gwahanol er mwyn asesu'r effaith ar dwf planhigion, sef:

1. Bio-olosg glaswellt mholinia
2. Deunydd gorwedd anifeiliaid wedi'i gyd-gompostio â gwllân defaid (20% gwllân, 80% tail)
3. Deunydd gorwedd anifeiliaid gyda bio-olosg glaswellt mholinia (20% bio-olosg, 80% tail)

Nodau'r prosiect hwn yw:

- Dangos a oes modd gwella pwysau cnwd llysiâu gyda deunydd ag ôl troed carbon isel yn lle gwrteithiau anorganig
- Darparu marchnad gynaliadwy ar gyfer glaswellt mholinia, i annog iddo gael ei dynnu a gwella bioamrywiaeth yr ucheldir
- Datblygu dull i gynyddu faint o garbon a gaiff ei atafaelu yn y pridd
- Darparu dewis arall yn lle compostau /cyflyrwyr pridd mawn
- Datblygu marchnad ar gyfer gwllân cynffon (nad oes ganddo unrhyw ddefnydd na gwerth ar hyn o bryd)

### Canlyniadau cychwynnol o 2021

Rhoddodd pob un o'r pum treial yn y flwyddyn gyntaf ganlyniadau ychydig yn wahanol. I grynhoi, ymddengys mai bio-olosg (gyda chompost gwllân defaid/tail) gafodd yr effaith fwyaf yn y cyfrwng tyfu gwaethaf. Dangosodd pob triniaeth ganlyniad gwell yn erbyn y cnwd cymharu, ond nid oedd pob un yn ystadegol arwyddocaol.

Dangosodd y treial yn y cae bresych fod y cymysgedd bio-olosg + compost wedi rhoi cynnydd o 35% yn y cnwd o'i gymharu â'r cnwd cymharu. Fel mae'r ymchwil yn ei awgrymu, mae'n cymryd dwy flynedd i fio-olosg roi budd llawn, felly bydd bresych yn cael eu tyfu eto yn yr un gwely.

Yn y treialon gyda brenhinllys, pan gafodd bio-olosg ei ychwanegu at gompost masnachol, cafodd effaith gadarnhaol fach, ond cafodd symiau uchel effaith negyddol uchel. Felly, mae'r treialon potiau brenhinllys eleni wedi'u cynllunio i ddod o hyd i gymhareb ddelfrydol i bob un.

Gyda'r india-corn a'r courgettes, a dyfwyd mewn gwelyau uchel o bridd ychydig yn asidig oedd wedi'i wella, y compost heb fio-olosg a berfformiodd orau.

Dangosodd cnydau rhuddygl, a dyfwyd mewn potiau mewn pridd eithaf gwael â pH o 5.8, welliant arwyddocaol ym mhwsau'r cnwd ar gyfer pob triniaeth. Caiff y treialon hyn gyda'r potiau eu hailadrodd eleni i asesu'r gymhareb optimwm o bridd ac ychwanegiad.

### Dyma'r canlyniadau manylach

Mae'r ail dymor tyfu'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.

### Cynlluniau Datblygu Personol

Yn y cyfnod hwn, crewyd **741** o Gynlluniau Datblygu Personol; o'r rhain, cwblhawyd, **31** gan fusnesau a ddewisodd arddwriaeth fel prif sector neu is-sector.



## Y Gyfnewidfa Gwybodaeth



### Naomi Hope

**Lleoliad:** Nanhyfer, Sir Benfro

**Cyrchfan:** Ffrainc

**Pwnc:** Tyfu a phrosesu perlysiâu organig ar gyfer te Cymreig

Mae Naomi (sydd â gradd meistr mewn rheoli prosiect), ynghyd â'i phartner Richard, yn newydd-ddyfodiad i'r sector garddwriaeth. Maent yn tyfu ystod amrywiol o lysiau organig o'u tyddyn 10 erw yn Sir Benfro, sy'n cael eu gwerthu trwy gynllun blychau llysiâu, yn ogystal ag yn uniongyrchol i siopau a bwytai. Ar ôl ymchwilio i'r farchnad, maent yn teimlo'n barod i ehangu eu model busnes trwy dyfu perlysiâu organig ffres, gan gynnwys y rhai y gellir eu troi'n de arbenigol.

*"Yn wahanol i Ffrainc, ychydig iawn o berlysiâu sy'n cael eu tyfu yn y DU yn benodol ar gyfer te. Mae gan Lydaw hinsawdd debyg i'n hinsawdd ni, felly bydd fy nghyfnewidfa yn dysgu pa fathau i ganolbwyntio arnynt, a byddaf yn dysgu am y prosesau torri, sychu, prosesu a pheccynnu."*



### John Savage-Onstwedder

**Lleoliad:** Llandysul, Ceredigion

**Cyrchfan:** Sweden

**Pwnc:** Distyllu nodd bedw i gynhyrchu alcohol

Yn ôl John Savage-Onstwedder, mae miloedd o erwau o goed bedw yng Nghymru, ond hyd y gwyddai, does dim byd yn cael ei wneud â nhw! Mae John yn ffermio fferm organig 60 erw yng Ngheredigion, lle mae'n cadw buches o wartheg sugno. Mae'n fwyaf adnabyddus, fodd bynnag, am fod yn sylfaenydd Caws Teifi Cheese a Distyllfa Dà Mhile – dwy fenter arobryn sy'n cael eu cydnabod yn eang am gynhyrchu cynnyrch blaenllaw o fewn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae John yn aelod o 'Grŵp Nodd Bedw', a sefydlwyd i ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer cynaeafu a marchnata nodd bedw.

*"Mae fy niddordeb mewn ymweld â Sweden yn cynnwys cyfarfod â chwmni sy'n defnyddio nodd bedw yn llwyddiannus i gynhyrchu alcohol."*

## Cymhorthfeydd

 CYNHALIWDYD **7** CYMHORTHFA

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

**4** Marchnata ac Arallgyfeirio

**2** Busnes a Pherfformiad y Busnes

**1** Cyfraith Amaethyddiaeth ac Olyniaeth

Roedd sawl busnes am gael cymhorthfa yn ymwneud â naill ai Marchnata ac Arallgyfeirio neu Fusnes, i drafod y grant garddwriaeth newydd a'r cyfleoedd ynglŷn â hynny. Roedden nhw am gael cyngor ar sut i greu cynllun busnes ynglŷn â'u syniadau busnes garddwriaeth.

Roedd un busnes am gael cymhorthfa Cyfraith Amaethyddiaeth ac Olyniaeth, i gael mwy o wybodaeth am gytundebau mentrau ar y cyd, oherwydd eu bod yn ystyried mynd i fenter ar y cyd ym maes garddwriaeth.

## Mentro

**0** HNIFER Y CYFLEOEDD GARDDWRIAETH SYDD AR GAEL AR HYN O BRYD

**17** NIFER Y CEISWYR YN CHWILIO AM GYFLEOEDD GARDDWRIAETH



**1** CYFLE GARDDWRIAETH WEDI'I BARU DRWY FENTRO AC YN CAEL BUDD Y GWASANAETH CYNGHORI AR HYN O BRYD



## Gweminarau



Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

### Byw oddi ar 10 erw

Cynhaliwyd y weminar hon yn rhan o sioe deithiol Byw oddi ar 10 Erw, gan dargedu unigolion sy'n ceisio arallgyfeirio i arddwriaeth, a garddwyr profiadol sy'n ceisio mentro ymhellach. Roedd y sioe deithiol yn trafod y cyfleoedd garddwriaeth sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys:

- Ffactorau allweddol wrth ddatblygu busnes garddwriaeth llwyddiannus
- Sut y gall 10 erw neu lai gynnal bywoliaeth
- Opsynau cnydau, megis llysiâu gwerth uchel, aeron arbenigol, perllannau a gwinllannoedd
- Systemau tyfu hydroponeg
- Rhagolygon i'r dyfodol

Ymunodd Matt Swarbrick, sy'n ffermio yn Henbant yng ngogledd-orllewin Cymru, â Cyswllt Ffermio yn y sioe deithiol hon hefyd i rannu ei brofiad busnes llwyddiannus yn y sector. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i bobl rwydweithio a rhannu sylwadau a syniadau.

### Cefnogaeth i'r sector garddwriaeth

Cynhelir gweminar Cyswllt Ffermio gyda Richard Evans, Llywodraeth Cymru, yn esbonio'r cymorth sydd ar gael i gynhyrchwyr garddwriaeth masnachol sy'n bodoli eisoes i ddatblygu eu busnes drwy'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth. Bu'r weminar hon hefyd yn egluro'r cynllun Cychwyn Garddwriaeth, sy'n ceisio cefnogi mynediad i'r sector garddwriaeth yng Nghymru drwy annog sefydlu mentrau garddwriaeth masnachol newydd. Hefyd, cyflwynodd Dr Delana Davies ganlyniadau prosiect garddwriaeth diweddar sy'n cael ei gynnal ar un o safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio.

## Hyfforddiant



Roedd **pedwar** cyfnod ymgeisio rhwng Mai 2021 a Mehefin 2022, gyda **1326** achos o hyfforddiant wedi'u darparu

O'r rhain, roedd **18** achos yn dod o fusnesau a oedd yn cynnwys Garddwriaeth fel prif sector neu is-sector.

Roedd y cyrsiau a ddarparwyd yn cynnwys:

### Roedd y cyrsiau a ddarparwyd yn cynnwys:

Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a(PA6)

Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw

Rheolaeth gyfrifol ac Effeithiol ar Gnoflod Cyd-drigol

Cadw llyfrau

Cynnal a Gwella Iechyd y Pridd

Rheoli Gwahaddod - Technegau trapio

Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a (PA2)

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn y cyfnod hwn fan fusnesau a oedd yn nodi Garddwriaeth fel prif sector neu is-sector:

IECHYD A  
DIOGELWCH



EFFEITHLONRWYDD  
PORTHANT



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

